**LC584**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2002**

Mae'r gorchymyn hwn yn cychwyn darpariaethau amrywiol Deddf Addysg 2002 ar 19 Rhagfyr 2002, 31 Mawrth 2003 ac 1 Medi 2003.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gwahoddir y Cynulliad i sylwi fod dau wall drafftio bychan yn yr offeryn sydd wedi'i roi ger eu bron. Cawsant eu cywiro gan y cyfreithiwr drafftio cyn ei osod. Mae'r copi o'r offeryn sydd ar y Fewnrwyd o dan "Deddfwriaeth y Cynulliad" yn gywir.

Gellid cywiro'r camgymeriadau hyn drwy femorandwm cywiriadau ond, yn yr achos hwn, credir y byddai'n ddigon sicrhau mai'r fersiwn sydd ar y fewnrwyd sy'n cael ei gwneud a'i chyhoeddi.

Dyma'r pwyntiau. Maent yn berthnasol i'r testunau Cymraeg a Saesneg -

1. Nid oes unrhyw beth i nodi bod y cyfeiriad at "Rhan 7" yn Erthygl 2 yn gyfeiriad at Ran 7 y Ddeddf. Dylai Erthygl 3 ddarllen "...mae cyfeiriadau at Rannau, adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at Rannau, adrannau ac Atodlenni Deddf Addysg 2002."
2. Yn y bedwaredd eitem yn Rhan I yr Atodlen dylai "is-baragraff[au]" fod yn "is-adran[nau]".

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

10 Rhagfyr 2002